At: Swyddogion cyfrifol cyrff dyfarnu

13 Mai 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Cyhoeddi Polisi Cosbau Ariannol Cymwysterau Cymru

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu ein bod wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol:

- Polisi Cosbau Ariannol Cymwysterau Cymru
- Ymgynghoriad ar y Polisi Cosbau Ariannol - Adroddiad ar y penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad.

Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar ystod o bolisïau gorfodi, gan gynnwys ein Polisi Cosbau Ariannol drafft. Roedd hwn yn bolisi newydd ac nid oedd wedi'i gyhoeddi o'r blaen.Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, rydym wedi dadansoddi ymatebion ac wedi ymgymryd â gwaith datblygu polisi pellach. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi ein helpu i fireinio ein datganiad polisi ymhellach, ac egluro sut rydym yn cyfathrebu ein gofynion. Hoffem ddiolch i bawb ohonoch a ymatebodd.

Pennir ein gallu i roi cosbau ariannol gan Reoliadau a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ymgynghori y byddem yn cyhoeddi ein Polisi Cosbau Ariannol ar ôl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y Rheoliadau hynny a'u cymeradwyo wedyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cymeradwywyd y Rheoliadau hyn ar 2 Ebrill ac yna daeth i rym ar 12 Ebrill 2019.

Mae ein hadroddiad yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r polisi ar ôl yr ymgynghoriad ac mae ein Polisi Cosbau Ariannol cyhoeddedig ar gael ar ein gwefan.

Yn gywir,

J. Richards

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222